**<u>Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Trefeurig a gynhaliwyd yn festri Horeb 26.07.2022 am 7yh</u>**

**<u>Minutes of the meeting of the Trefeurig Community Council held in Horeb vestry 26.07.2022 at 7pm</u>**

Presennol / Present: Cyng E Reynolds, R Owen, S James, L Emlyn, G Price, D James, C Roberts

Hefyd yn bresennol / Also Present: Mrs Ruth Davies

**Cadeirydd / Chairman:**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod

Cynigiodd y Cadeirydd ei longyfarch i'r Cynghorydd D James ar ei graddio yn ddiweddar o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd MSc.

Welcomed all to the meeting

The Chairman offered his congratulations to Cllr D James on her recent graduation from Aberystwyth University with an MSc.

**22. Ymddiheuraiadau / Apologies**

Derbyniwyd ymdiheuriadau am absenoldeb oddi wrth / Apologies for absence were received from:

Cyng M Evans, M Jenkins (Clerc)

**23. Datganiadau Budd / Declerations of Interest**

Dim / None

**24. Cofnodion / Minutes**

**Derbyniwyd fod Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 21.06.2022 yn gywir. Cynigwyd gan Cyng G Price, eilio gan Cyng S James.**

The minutes of the last meeting held on 21.06.2022 were confirmed to be correct. Proposed by Cllr G Price, seconded by Cllr S James.

**25. Materion yn codi / Matters Arising**

**Adnoddau Dynol / Human Resources:**

**Roedd y Cadeirydd yn falch o gyhoeddi bod y Clerc wedi tynnu ei hymddiswyddiad yn ôl.**

The Chairman was pleased to report that the Clerk has withdrawn her resignation.

**Golau Stryd / Street Lighting:**

**Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r cyngor am wybodaeth ond nid yw wedi cael ymateb hyd yma. Unwaith y bydd y wybodaeth ar gael bydd Cyng M Evans a'r Cyng R Owen yn cynnal arolwg o'r ardal.**

The Clerk has contacted the council for information but has not yet received a response. Once the information is available Cllr M Evans and Cllr R Owen will undertake a survey of the area.

**Cwm Symlog:**

**Cadarnhaodd Cyng C Roberts nad oedd diweddariad i'r sefyllfa.**

Cllr C Roberts confirmed that there was no update to the situation.

**Eglwys St Ioan:**

**Does dim diweddariad pellach wedi bod gan Gyngor Sir Ceredigion ynglŷn â'r mater.**

There has been no further update from Ceredigion County Council on this matter.

**IBERS:**

**Does dim ymateb wedi bod gan Gyngor Sir Ceredigion ynglŷn â'r mater.**

There has been no response from Ceredigion County Council on this matter.

**Goleuadau Stryd / Street Lights:**

**Gofynnodd Cyng C Roberts am gadarnhad mai goleuadau lefel isel oedd yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y llwybr a rennir i IBERS. Cytunodd y cyngor fod hyn fwyaf addas ar gyfer yr ardal. Bydd Cyng C Roberts yn gwneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Ceredigion.**

Cllr C Roberts asked for confirmation that low level lighting was the preferred option for the shared path to IBERS. The council agreed that this was most suitable for the area. Cllr C Roberts will make enquiries with Ceredigion County Council.

**Maes Seilo**

**Mynychodd y Cadeirydd, Cyng R Owen a Cyng C Roberts cyfarfod safle ar 21.06.2022 a siaradodd â thrigolion, sy'n ymwneud â chyflwr yr ardal barcio.**

**Cynigiwyd y syniad o greu llecyn gwyrdd gerllaw'r ardal barcio er mwyn gwneud yr ardal yn fwy dymunol gan Cyng C Roberts. Cyng C Roberts i ymgysylltu â'r preswylwyr i ddechrau'r broses o dacluso.**

**Bydd angen gwaith ar yr ardal barcio ei hun hefyd. Clerc i drefnu i'r 'handyman' Aled Jones ymweld â'r safle ac asesu pa waith sydd ei angen.**

The Chairman, Cllr R Owen and Cllr C Roberts attended a site meeting on 21.06.2022 and spoke to residents, who are concerned by the condition of the parking area.

The idea of creating a green space next to the parking area in order to make the area more pleasant was proposed by Cllr C Roberts. Cllr C Roberts to engage with the residents to begin the process of tidying.

The parking area itself will also require work. Clerk to arrange for the handyman Aled Jones to visit the site and assess what work is needed.

**Parc / Cwrt Tennis:**

**Mae Aled Jones wedi ymweld â'r safle er mwyn asesu'r difrod a achoswyd i'r llwybr gan wreiddiau'r goeden. Amcangyfrifir y bydd cost atgyweirio'r llwybr yn £700. Cytunwyd y dylid gwneud y gwaith.**

Aled Jones has visited the site to assess the damage caused to the path by the tree roots. The cost of repair to the path is estimated at £700. It was agreed that the work should be carried out.

**26. Gohebiaeth / Correspondence:**

**Cyngor Sir Ceredigion: Rhybudd am bedair swydd wag ar Gyngor Cymuned Trefeurig y gall aelodau newydd gael eu cyfethol ar eu cyfer. Dyddiad cau 29.07.2022**

**Llythyr gan yr AS Ben Lake – nodwyd**

**One Voice Wales – Manylion y Gynhadledd Ymarfer Arloesol ar Fedi 13. Cadeirydd i mynychu.**

Ceredigion County Council: Notice of four vacancies on Trefeurig Community Council for which new members may be co-opted. Closing date 29.07.2022.

Letter from MP Ben Lake – noted

One Voice Wales – Details of Innovative Practice Conference on September 13. Chairman to attend.

**27. Cynllunio / Planning**

Dim / None

**28. Taliadau / Payments**

**Allwch chi lenwi'r rhain i mewn fel fy mod i'n gwybod bod nhw'n gywir?**

**29. Adroddiadau ar gyfarfodydd a fynychwyd / Reports on meetings attended:**

**Mynychwyd Pwyllgor y Neuadd gan Cyng G Price a Cyng S James**

**Mi fydd Sioe Penrhyncoch yn cael ei chynnal ar Awst 20**

**Mi fydd Te Cyfeillion Catref Tregerddan yn cael ei gynnal yn Neuadd y Penrhyn ar Fedi 17.**

**Penodwyd Cyng D James i Bwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion.**

The Hall Committee meeting was attended by Cllr G Price and Cllr S James

Penrhyncoch Village Show will take place on August 20

The Friends of Catref Tregerddan’s Tea will take place at Neuadd y Penrhyn on September 17.

Cllr D James has been appointed to Ceredigion County Council Ethics and Standards Committee.

**30. Gwefan / Website:**

**Dywedodd Cyng L Emlyn ei bod yn teimlo bod angen i'r Cyngor wella'r ffordd maent yn cyfathrebu ar-lein er mwyn codi eu proffil a gwneud gwybodaeth yn haws i'w darganfod.**

**Roedd Cyng D James wedi ymchwilio i'r mater a rhoddodd grynodeb o'r gofynion ar gyfer gwefannau Cynghorau Cymuned dan Arweiniad Statudol Llywodraeth Cymru ar Fynediad i wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref (2015). Nid yw gwefan Trefeurig, sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd, yn cwrdd â'r gofynion hyn.**

**Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn gweithio ar ddatblygu eu gwefan eu hunain er mwyn cwrdd â'r gofynion hyn. Penderfynwyd felly y dylid cynnull is-bwyllgor Gwefan i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Cynigiwyd penodi y Cadeirydd, Cyng L Emlyn a Cyng D James i is-bwyllgor y Wefan. Derbyniwyd y swyddi. Bydd is-bwyllgor y Wefan yn cyfarfod dros yr haf i greu briff ac i gael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith datblygu.**

Cllr L Emlyn stated that she felt that the Council needs to improve how they communicate online in order to raise their profile and make information easier to find.

Cllr D James had researched the matter and gave a summary of the requirements for Community Council websites under the Welsh Government’s Statutory Guidance on Access to information on Community and Town Councils (2015). The Trefeurig website, which is currently used, does not meet these requirements.

It was agreed that the Council would work on developing their own website in order to meet these requirements. It was therefore resolved that a Website sub-committee should be convened to move this work forward. It was proposed that the Chairman, Cllr L Emlyn and Cllr D James were appointed to the Website sub-committee. Positions accepted. The Website sub-committee will meet over the summer to create a brief and obtain quotes for the development work.

**31 Rheolau Sefydlog / Standing Orders:**

**Gan mai dim ond y diwrnod hwnnw yr oedd y Rheolau Sefydlog drafft a baratowyd gan y Cadeirydd wedi'u dosbarthu, penderfynwyd trafod hyn yn y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi mwy o amser i gynghorwyr baratoi.**

As the draft Standing Orders prepared by the Chairman had only been circulated that day it was decided to discuss this in the next meeting in order to give councillors more time to prepare.

**32 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 / The Local Government and Elections (Wales) Act 2021:**

**Rhoddodd Cyng D James grynodeb o ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sydd wedi dod i rym yn ddiweddar. Penderfynwyd rhoi'r Cynllun Hyfforddi ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Cllr D James gave a summary of the requirements of The Local Government and Elections (Wales) Act 2021, which has recently come into force. It was decided to put the Training Plan on the agenda for the next meeting.

**33. Storfa Cae Chwarae Penbontrhydybeddau / Storage Penbontrhydybeddau Playing Field:**

**Siaradodd Mrs Ruth Davies i esbonio cynlluniau Cae Chwarae Penbontrhydybeddau i godi adeilad dros dro ar y maes storio a chyfarfodydd pwyllgor. Dymunai'r Pwyllgor gael cymeradwyaeth ar y cynlluniau hyn gan Gyngor Cymuned Trefeurig fel perchennog y tir.**

**Cytunwyd bod y Cyngor yn hapus i'r cynlluniau hyn fynd ymlaen.**

Mrs Ruth Davies spoke to explain Cae Chwarae Penbontrhydybeddau's plans to erect a temporary structure on the field for storage and committee meetings. The Committee wished to gain approval for these plans from Trefeurig Community Council as the owner of the land.

It was agreed that the Council was happy for these plans to go ahead.

**34. Cyfethol o Aelodau Newydd / Co-option of New Members:**

**Derbyniwyd tri llythyr gan unigolion sydd â diddordeb yn y swyddi gwag. Y dyddiad cau yw 29.07.2022.**

Three letters have been received from individuals interested in the vacancies. The closing date is 29.07.2022.

**35. Unrhyw Fusnes Arall / Any Other Business:**

**Cynigiodd Cyng G Price ei llongyfarchiadau i PATRASA ar ennill Gwobr Gymunedol Galonogol Menter Aberystwyth yn ddiweddar. Clerc i ysgrifennu at Gadeirydd PATRASA ar ran y Cyngor.**

**Cynigiodd Cyng C Roberts ei llongyfarchiadau i Gofal Plant Gogerddan ar ennill Gwobr Meithrinfa'r Flwyddyn gan CDC yn ddiweddar, ac i Gae Chwarae Penbontrhydybeddau ar Ddiwrnod Hwyl llwyddiannus.**

**Cynigiodd Cyng R Owen ei longyfarchiadau i Mr Daniel Huws ar gyhoeddi ei gyfrol 'A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800-c.1800' ar ei ben-blwydd yn 90 oed. Clerc i ysgrifennu at Mr Huws ar ran y Cyngor.**

**Roedd y Cadeirydd wedi derbyn cwyn gan un o'r trigolion ynglŷn â chyflwr y lloches bysiau ar y sgwâr. Clerc i drefnu i Aled Jones lanhau'r lloches.**

**Gofynnodd Cyng D James os oedd modd dosbarthu papurau o leiaf 2 ddiwrnod cyn y cyfarfod er mwyn rhoi digon o amser i'w darllen yn iawn.**

Cllr G Price offered her congratulations to PATRASA on recently winning the Menter Aberystwyth Encouraging Community Award. Clerk to write to PATRASA Chair on behalf of the Council.

Cllr C Roberts offered her congratulations to Gogerddan Childcare on recently winning NDNA Wales Nursery of the Year Award, and to Cae Chwarae Penbontrhydybeddau for a successful Fun Day.

Cllr R Owen offered his congratulations to Mr Daniel Huws on the publication of his volume ‘A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800-c.1800’ on his 90th birthday. Clerk to write to Mr Huws on behalf of the Council.

The Chairman had received a complaint from a resident about the condition of the bus shelter on the square. Clerk to arrange for Aled Jones to clean the shelter.

Cllr D James requested that papers be circulated at least 2 days before the meeting in order to allow enough time to read them properly.

**36: Dyddiad Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting:**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 20 Medi 2022 yn Neuadd y Penrhyn**

The next meeting will be convened in person in Penrhyncoch Village Hall on 20 September 2022